WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol – **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 309A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer ar gyfer ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru drwy swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd Gabrielle Smith, David Thomas, Anthony Ford, Jason Garcia ac Anthony Veale yn rhan o'r tîm a'm helpodd i baratoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 7

Adran 1: archwilio cyfrifon 8

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2016-17 yr Ymddiriedolaeth 8

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Mae trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio'n dda, ond er bod y manylion yn adroddiadau cyllid y bwrdd wedi gwella, mae'r wybodaeth am arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi yn gyfyngedig 10

Mae'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella trefniadau llywodraethu, ond mae mwy i'w wneud er mwyn ehangu ar waith craffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol 12

Mae fy ngwaith yn archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer bach o feysydd allweddol 16

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 20

Atodiad 2 – fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio 21

# Adroddiad Cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a gynhaliais yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2017. Gwnes i'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei defnydd o adnoddau.

2 Roedd fy ngwaith archwilio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i fy nghyfrifoldebau archwilio. Mae rhagor o fanylion ar agweddau penodol fy archwiliad ar gael mewn adroddiadau ar wahân a gynhyrchais yn ystod y flwyddyn. Rydym yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn cytuno ar eu cywirdeb ffeithiol â swyddogion cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Caiff fy adroddiadau eu rhestru yn Atodiad 1.

3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, y bu i ni ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 13 Mawrth 2018. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad yng nghyfarfod dilynol y Bwrdd, a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu cyhoeddi'r adroddiad hwn ymhellach. Ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried, bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: archwilio cyfrifon

5 Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2016-17 yr Ymddiriedolaeth. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol.

6 Nid wyf wedi adrodd am unrhyw broblemau at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â fy archwiliad o'r cyfrifon, ond rwyf wedi adrodd am rai materion bach ynghylch gwella rhai agweddau ar y broses gyfrifon yn fy memorandwm cyfrifo terfynol.

7 Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r cyfrifon.

8 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd yn gorffen 2016-17, ac felly bu iddi fodloni un o'i dwy ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Bu i'r Ymddiriedolaeth hefyd ddiwallu ei hail ddyletswydd ariannol o fod â chynllun ariannol cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2016-17 hyd at 2018-19. Mae rhagor o fanylion am sefyllfa ariannol a threfniadau rheolaeth ariannol yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

9 Rwyf wedi archwilio trefniadau cynllunio a rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, ei threfniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i chynnydd ar y materion i'w gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwnaed hyn er mwyn i mi fodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei defnydd o adnoddau. Bu i mi hefyd gynnal adolygiad archwilio perfformiad o'r trefniadau cydweithio ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol. Mae fy nghanfyddiadau a oedd yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

### Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio'n dda, ond er bod y manylion yn adroddiadau cyllid y bwrdd wedi gwella, mae'r wybodaeth am arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi'n gyfyngedig

10 Canfu fy adolygiad o drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol, gan gynnwys nodi a chyflawni arbedion ariannol, y canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei harbedion ariannol yn gyson, ac yn cyflawni cydbwysedd ariannol diwedd blwyddyn;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau ym maes cynllunio ariannol, er bod heriau wrth gyflawni rhai o'r cynlluniau arbedion pan fônt yn cynnwys tynnu cyllid yn ôl oddi wrth sefydliadau eraill;
- mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro gweithredol a chadw trosolwg o berfformiad ariannol a chynlluniau arbedion yn parhau i fod yn gadarn; ond er bod gwybodaeth ar lefel y bwrdd yn darparu rhagor o fanylion, mae'r wybodaeth am ddefnydd o arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi yn gyfyngedig; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar gynllunio ariannol ac adrodd.

### Mae'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella trefniadau llywodraethu, ond mae rhagor i'w wneud er mwyn ehangu ar waith craffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol

11 Canfu fy adolygiad o drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli risg, llywodraethu gwybodaeth, trefniadau rheoli perfformiad ac effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu a rheolaeth fewnol y canlynol:

- mae gwelliannau i drefniadau rheoli risg yn mynd rhagddynt;
- mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac yn parhau i fod yn ymroddedig i effeithiolrwydd sefydliadol a dysgu parhaus, ond mae'r angen i lenwi swyddi anweithredol gwag yn dod yn fwy enbyd;

- mae rheolaethau mewnol wedi'u cryfhau, gan gynnwys y rheini ar gyfer tracio argymhellion archwilio;
- mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth, ond ymddengys nad oes digon o amser i graffu ac nid yw rôl y Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol wedi'i chynnwys yn y polisi newydd;
- mae adrodd am berfformiad yn gwella, ond nid yw pob rhan o fusnes yr Ymddiriedolaeth yn destun craffu gan y Bwrdd, ac anaml yr adroddir yn erbyn y cynllun gweithredu; ac
- nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau.

## Mae fy ngwaith yn archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer fach o feysydd allweddol

12 Roedd fy ngwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig yn cynnwys adolygu nifer o alluogwyr allweddol ar gyfer defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn arbennig ar gyfer cynllunio a rheoli gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a thechnoleg. Edrychais hefyd ar y trefniadau cydweithio ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol. Mae fy nghanfyddiadau fel a ganlyn:

- mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol i lywio ei strategaeth hirdymor, mae'n gwella gwaith cynllunio'r gweithlu ac mae ganddi raglen wybodeg uchelgeisiol i gefnogi ei chynllun tymor canolig integredig, ond mae rhai trefniadau allweddol sydd heb eu cytuno na'u cyflwyno; ac
- nid yw trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

13 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

14 Mae Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 i aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau'r gwaith archwilio a gynhaliais rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Tachwedd 2017.

15 Rwy'n cyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth yn sgil y gofynion a nodwyd yn Neddf 2004.[1] Mae'r ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol fy mod:

a) yn archwilio ac yn ardystio'r cyfrifon a gyflwynir i mi gan yr Ymddiriedolaeth, ac yn eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) yn bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm sy'n berthnasol i'r cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion y'u bwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; ac

c) yn bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

16 Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd neu fel arall gan y ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a gynhaliwyd fel rhan o fy asesiad strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a oedd yn archwilio'r trefniadau ar gyfer sicrwydd, llywodraethu a rheoli ariannol;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, pan fônt yn berthnasol i fy nghyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion cyfateb data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

17 Rwyf wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn grynodebau o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Mae rhestr o'r rhain ar gael yn Atodiad 1.

18 Cyflwynir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwilio cyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer diogelu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnydd o adnoddau

19 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio cyfrifon

20 Mae adran hon yr adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Y datganiadau hyn yw'r modd y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llif arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliadol yn elfen hanfodol o ran arddangos stiwardiaeth briodol o arian y cyhoedd.

21 Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae gofyn i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi safbwynt gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac o'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill, ac a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan o'r adroddiad taliadau a gaiff ei harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth a ddarperir gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol gan amlaf) yn gyson â nhw; a
- chysondeb gwariant ac incwm yn y datganiadau ariannol.

22 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2016-17 yr Ymddiriedolaeth

### Roedd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol, ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol

23 Derbyniom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017 ar 28 Ebrill 2017, a oedd cyn y dyddiad cau cyflwyno. Canfuom bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Mae'n ofynnol i mi adrodd am faterion sy'n codi o fy ngwaith wrth y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn cyflwyno fy marn archwilio ar y cyfrifon.

24 Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol am y materion hyn wrth Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2017. Rydym yn falch o adrodd na roddwyd gwybod am unrhyw faterion sylweddol i'r Pwyllgor Archwilio yn rhan o'r adroddiad hwn. Cyhoeddom femorandwm cyfrifon terfynol a oedd yn cynnwys rhai materion bach mewn perthynas â gwella mesurau rheoli dros gysoniadau Asedau, esboniadau ar gyfer adolygiadau dadansoddol o gyfrifon, cyfrifo ar gyfer gwariant y cynllun cyfeirio i Ymarfer Cenedlaethol a phapurau gwaith archwilio.

### Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth

25 Bu i mi adolygu rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth yr oeddwn o'r farn eu bod yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i nodi, i asesu ac i ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, nid ystyriais y rhain er mwyn mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol ym mesurau rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

26 Mae'n ofyniad statudol fy mod yn bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Rwyf wedi cynnal ystod o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- gwaith dilynol ar adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol a'u cyfraniad at gyflawni cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed y llynedd;
- asesu sut caiff gwaith cyfateb data ei weithredu fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol;
- adolygiad lleol o drefniadau cydweithio rhwng yr Ymddiriedolaeth, timau iechyd y cyhoedd lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd; ac
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau allanol.

27 Rwyf hefyd wedi cynnal gwaith archwilio perfformiad a oedd yn archwilio'r trefniadau cydweithio rhwng timau iechyd y cyhoedd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd y Cyhoedd.

28 Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod eu crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Mae trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn gweithio'n dda, ond er bod y manylion yn adroddiadau cyllid y bwrdd wedi gwella, mae'r wybodaeth am arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi yn gyfyngedig

29 Yn ogystal â gwneud sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, roedd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2017 yn ystyried y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol ac i greu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Rwyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol mewn perthynas â chynllunio ac adrodd ariannol. Rwy'n crynhoi fy nghanfyddiadau isod.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni arbedion ariannol yn gyson ac yn cyflawni cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn

30 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol unwaith eto yn 2016-17, a gwnaeth warged bach (£16,000). Bu iddi hefyd gyflawni ei dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd, o 2014-15 hyd at 2016-17. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth arbedion o £1.848 miliwn fel y nodwyd yn strategaeth cyllideb 2016-17, a rhagwelir y bydd yn cyflawni'r arbedion arfaethedig ar gyfer 2017-18. Ar ddiwedd mis Hydref 2017, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni 55% o'r arbedion arfaethedig a nodwyd yn strategaeth cyllideb 2017-18, sef dim ond ychydig yn llai na'r hyn a gynlluniwyd (58%) ar gyfer y pwynt hwn yn y flwyddyn. Rhagwelir y bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau i waith cynllunio ariannol, er bod heriau wrth gyflawni rhai cynlluniau arbedion pan fônt yn cynnwys tynnu arian yn ôl oddi wrth sefydliadau eraill

31 Mae'r broses cynllunio ariannol yn parhau i fod yn rhan annatod o gylch cynllunio'r Ymddiriedolaeth, ac nid yw'r broses o osod cyllideb wedi newid llawer. Heblaw am roi gweithdrefn reoli sefydliadol ar waith, mae'r broses o osod cyllidebau yn parhau yr un fath i raddau helaeth. Rhoddwyd y weithdrefn hon ar waith gan ystyried maint yr arbedion oedd yn gysylltiedig â chyflogau yn 2016-17. Caiff swyddi sy'n wag am chwe mis neu hirach eu tynnu o waelodlin adran bellach, oni bai bod rhesymau gwirioneddol i gadw swyddi gwag. Mae cyllidebau adrannol yn parhau i fod yn seiliedig ar wariant y chweched mis yn y flwyddyn flaenorol, wedi'i addasu ar gyfer pwysau costau, ar darged effeithlonrwydd o 1% a thwf neu fuddsoddiad bwriadedig. Yn draddodiadol, mae'r broses hon wedi gweithio'n dda.

## Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro gweithredol a chadw trosolwg o berfformiad ariannol a chynlluniau arbedion yn parhau i fod yn gadarn; ond er bod gwybodaeth ar lefel y bwrdd yn fwy manwl, mae'r wybodaeth am ddefnydd arbedion a nodwyd i'w hailfuddsoddi yn gyfyngedig

32 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer craffu ar berfformiad ariannol, gan gynnwys cynlluniau arbedion, wedi hen sefydlu. Mae'r tîm cyllid yn monitro'r cyllidebau'n agos ac yn tracio arbedion yn fisol. Mae'r tîm cyllid wedi gwella'r log tracio ar gyfer monitro cyflawni arbedion, ac mae rhesymau dros lithriadau yn cael eu casglu mewn ffordd fwy systematig. Mae rhagor o waith craffu yn helpu i dargedu cymorth yn gynt, ac i sicrhau y caiff cynlluniau arbed amgen eu rhoi ar waith.

33 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella fformat a chynnwys adroddiadau cyllid y Bwrdd, gan ei gwneud yn haws tracio perfformiad yn erbyn y strategaeth cyllideb. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau cyllid yn cynnwys naratif sy'n trafod a gyflawnwyd cynlluniau ailfuddsoddi a ariannwyd drwy arbedion ai peidio. Roedd gwerth y rhain yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn fwy na £2 filiwn.

## Cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar gynllunio a rheoli ariannol

34 Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion 2017 ar gynllunio ac adrodd ariannol. Caiff natur risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbedion unigol eu cofnodi a'u trafod fel rhan o'r broses o osod cyllideb a chraffu. Yn y dyfodol, lle bo deiliaid cyllideb yn dibynnu ar gyflawni arbedion drwy dynnu cyllid i sefydliadau allanol yn ôl neu ei leihau, bydd angen iddynt ystyried nifer o faterion a darparu tystiolaeth o'r ystyriaethau hyn fel rhan o'r broses graffu ar y gyllideb. Dywedwyd wrthym bod llai o bwyslais yn 2017-18 ar greu cronfa fuddsoddi o arbedion, ond mae cynigion yn dal i fod yn destun craffu fel rhan o'r broses o osod cyllideb.

35 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella cynnwys adroddiadau cyllid y Bwrdd, gan ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl am gyflawni arbedion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â llithriadau; crynodeb o'r risgiau o ran mantoli'r gyllideb ddiwedd blwyddyn; manylion ar wariant cronnus yn erbyn y cynllun cyfalaf; a'r rhesymau dros danwariant neu orwariant ar gyllidebau cyfarwyddiaethau, gyda dangosydd o'r effaith ar gyflawni gwasanaethau neu eu hansawdd.

## Mae'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn adeiladu ar waith i wella trefniadau llywodraethu, ond mae mwy i'w wneud i gynyddu gwaith craffu ar berfformiad mewn meysydd allweddol

36 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn wedi cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag argymhellion a materion i'w gwella o asesiadau strwythuredig blaenorol. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u nodi isod.

### Mae gwelliannau i drefniadau rheoli risg yn cael effaith

37 Cymeradwywyd y polisi a'r gweithdrefnau rheoli risg ar ddechrau'r flwyddyn. Caiff rolau a dyletswyddau staff a'r Bwrdd mewn perthynas â chraffu a chadw trosolwg o risgiau strategol, corfforaethol, cyfarwyddiaethau ac adrannau a gaiff eu casglu ar gofrestri risg eu nodi'n glir. Er nad yw hyfforddiant rheoli risg yn orfodol, mae'r Bwrdd yn disgwyl i staff â chyfrifoldebau penodol gael hyfforddiant wyneb yn wyneb. Yn y cyfamser, mae 'Canllaw i Reoli Risg' yn cael ei ddatblygu i ddechreuwyr, ynghyd â set o gwestiynau cyffredin.

38 Mae rheoli risg yn cael ei weithredu'n fwy effeithiol o fewn y sefydliad, ac mae ansawdd cofrestri risg cyfarwyddiaethau yn gwella. Canfu adolygiad Archwilwyr Mewnol o drefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth eu bod yn darparu sicrwydd rhesymol, ac mae'n amlwg y caiff risgiau eu huwchgyfeirio a'u datrys yn unol â gweithdrefnau rheoli risg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod trefniadau rheoli risg wedi aeddfedu, ond bydd yn ceisio cadarnhau hyn drwy weithio i asesu aeddfedrwydd y system rheoli risg yn erbyn y safon rheoli risg rhyngwladol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

39 Caiff cyfrifoldeb dros drosolwg a chraffu ar risgiau strategol sydd wedi'u gosod yn fframwaith sicrwydd y bwrdd eu dirprwyo i bwyllgor priodol y bwrdd. Fodd bynnag, fel arfer ni ddynodir llawer o amser i'r dasg hon o fewn agendâu pwyllgorau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y lefel o graffu sydd ei hangen i wella, ac mae nawr yn sicrhau y caiff fframwaith sicrwydd y bwrdd ei ystyried ar y cyd ag adroddiadau perfformiad ac ariannol, gan nodi bod nifer o gamau lliniaru hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn. Nid yw'r Bwrdd wedi mynegi ei archwaeth risg eto, ond mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i'w ddiffinio.

### Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i effeithiolrwydd sefydliadol a dysgu parhaus, ond mae'r angen i lenwi swyddi gwag anweithredol yn dod yn enbyd

40 Mae yna raglen waith barhaus er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol fel rhan o'u hadolygiad blynyddol o effeithiolrwydd. Cynhaliodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ei asesiad blynyddol o effeithiolrwydd ym mis Tachwedd 2017,

ac mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Yn y cyfamser, mae cynlluniau ar waith i'r Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad asesu ei effeithiolrwydd ar ddechrau 2018.

41 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i deilwra rhaglenni cynefino ar gyfer swyddogion anweithredol newydd, a bydd sesiynau â phynciau penodol a ddatblygwyd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu hymgorffori i'r rhaglen gynefino ehangach. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth aelodaeth anweithredol lawn yn dal i fod, gan ei bod wedi bod yn aflwyddiannus wrth lenwi dwy swydd wag ar gyfer swyddogion anweithredol. Mae trafodaethau'n parhau rhwng yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru ynghylch denu ymgeiswyr â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i swyddi anweithredol. Ar nodyn cadarnhaol, roedd yr Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus wrth sicrhau bod ail gynrychiolwr staff yn bresennol yng nghyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau.

42 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth asesu effeithiolrwydd sefydliadol ehangach. Yn 2016, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad allanol o'r Adran Sgrinio i edrych yn benodol ar ei strwythur a'i threfniadaeth. Mae trefniadau rheoli prosiect ar waith i fynd i'r afael ag ugain argymhelliad yr adroddiad. Yn y cyfamser, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod yr adolygiad cyfoedion a gynhaliwyd gan Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd yn gadarnhaol i raddau helaeth, a disgwylir yr adroddiad ffurfiol ar ddechrau 2018.

## Mae rheolaethau mewnol wedi'u cryfhau, gan gynnwys y rheini ar gyfer tracio argymhellion archwiliadau

43 Mae Gweithdrefn Reoli Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill ar waith, a chanfu Archwilwyr Mewnol ei bod yn darparu sicrwydd rhesymol. Caiff Cofrestr Polisïau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill ei diweddaru'n barhaus, ac mae'n darparu cofnod o holl bolisïau a dogfennau rheoli cymeradwy'r sefydliad cyfan. Caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau a ddaw i ben eu hasesu ar gyfer risg gan yr arweinydd polisi a enwir, a chaiff y canlyniad ei rannu â'r pwyllgor cymeradwyo priodol.

44 Ystyriais hefyd effeithiolrwydd trefniadau ehangach yr Ymddiriedolaeth ar gyfer ymateb i argymhellion fy archwiliad. Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ddull sefydledig ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol. Caiff cynnydd ei ystyried yn erbyn yr argymhellion ym mhob cyfarfod, a chaiff cyflymdra'r cynnydd ei herio. Mae swyddogion perthnasol yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor fel rhan o'r her hon, yn enwedig pan fo camau gweithredu'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl a phan fo adroddiadau archwilio'n cynnig sicrwydd cyfyngedig. Gwnaed gwelliannau i'r log tracio ynghynt yn y flwyddyn, ar ôl adolygu fformat, ansawdd a phrydlondeb yr wybodaeth a gyflwynir. Mae adroddiad clawr bellach yn amlygu newidiadau neu benderfyniadau sylweddol y gofynnir i'r Pwyllgor eu gwneud.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth, ond ymddengys fod yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu yn gyfyngedig, ac nid yw rôl y Swyddog Diogelu Data o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol wedi'i nodi yn y polisi newydd

45 Gan y bydd Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn cael eu cyflwyno o fis Mai 2018 ymlaen, rhoddwyd yr ysgogiad i ddiwygio a llilinio polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth, gyda'r rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir. Fodd bynnag, nid yw'r Swyddog Diogelu Data, rôl orfodol o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, wedi'i ddisgrifio eto. Yn y cyfamser, mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn gwella, ond yn parhau i fod yn is na lefelau blaenorol.

46 Rhaid i'r Ymddiriedolaeth asesu ei chydymffurfiaeth ag Egwyddorion Caldicott yn flynyddol er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth y gellir adnabod cleifion drwyddi ei diogelu, a'i defnyddio pan fo'n briodol i wneud hynny yn unig. Mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn dangos gwelliant sylweddol dros saith mlynedd, ond mae'r asesiadau diweddaraf yn dangos y gallai gwybodaeth a ddarperir yn erbyn rhai safonau ddarparu darlun mwy realistig. Mae'n bwysig bod hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn gadarn, gan ei fod yn cyd-fynd â phob cais i Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd er mwyn cael cymeradwyaeth i ddefnyddio gwybodaeth y gellir adnabod cleifion drwyddi heb ganiatâd, o dan Adran 251 Deddf y GIG 2006.

47 Mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn deall pa wybodaeth y mae'n ei chadw er mwyn ei diogelu a gwneud y mwyaf o'i photensial. Nid yw pob llif gwybodaeth wedi'i fapio, ac mae gwaith ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth wedi cymryd amser hir. Hyd yn hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dibynnu ar bolisi diogelwch gwybodaeth etifeddol, wrth aros i bolisi Cymru gyfan gael ei ddatblygu a'i ryddhau. Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth wedi'i gymeradwyo yn dilyn diwygiadau gan y Prif Swyddog Risg a Phennaeth Gwybodeg, gan gydnabod y gydberthynas rhwng y ddwy ddisgyblaeth. Yn y cyfamser, caiff risgiau diogelwch gwybodaeth eu rheoli o fewn y Polisi Rheoli Risg cyffredinol.

48 Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio llywodraethu gwybodaeth ar waith, yn strategol ac yn weithredol. Fodd bynnag, ymddengys bod yr amser sydd ar gael i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella graffu ar faterion llywodraethu gwybodaeth yn brin, o gymharu â'r amser oedd ar gael cyn diddymu'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth. Canfu hunanasesiad diweddaraf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella bod ei waith goruchwylio llywodraethu gwybodaeth wedi gwella, ynghyd â gwelliannau yn lefel y manylder ac ansawdd yr wybodaeth a dderbynnir.

## Mae adrodd am berfformiad yn gwella, ond nid yw pob rhan o fusnes yr Ymddiriedolaeth yn destun craffu gan y Bwrdd, ac anaml yr adroddir yn erbyn y cynllun gweithredol

49 Mae trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd ar ddangosyddion allweddol gwasanaethau, ansawdd ac adnoddau wedi'u nodi'n glir yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth, a gafodd ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet am y drydedd flwyddyn yn olynol. Dros y dair blynedd ddiwethaf, mae nifer y dangosyddion perfformiad yn y Fframwaith Gyflawni wedi cynyddu, ond nid yw'n cynnwys mesurau perfformiad sy'n cynnwys ystod lawn o fusnes yr Ymddiriedolaeth, megis Gwella Ansawdd y GIG/1000 o Fywydau, gwybodaeth am iechyd a rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol fel 'y 1000 Diwrnod Cyntaf'. Mae adroddiadau perfformiad yn tynnu sylw'r Bwrdd at feysydd o danberfformio ac at ddangosyddion wedi'u sgorio gan ddefnyddio'r system coch, oren a gwyrdd i ddynodi amrywio oddi ar y targed.

50 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn feirniadol o'r diffyg gwybodaeth a adroddir wrth y Bwrdd mewn perthynas â chyflawni'r cerrig milltir a osodir yn y cynllun tymor canolig integredig, a chynnydd wrth gyflawni'r cynllun gweithredol blynyddol. Nid yw'r cynnydd a'r effaith cyffredinol wedi'i adrodd yn gyhoeddus wrth y Bwrdd eto, a dwywaith y mae perfformiad yn erbyn y cynllun gweithredol diweddaraf wedi'i adrodd yn ystod 2017-18 (Gorffennaf 2017 a Ionawr 2018), er bod cynlluniau i adrodd yn chwarterol.

51 Mae straeon defnyddwyr gwasanaeth yn dod yn nodwedd reolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a chyhoeddwyd crynodeb o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth yn ddiweddar. Cytunodd y Bwrdd ar ddull mwy strwythuredig ar gyfer nodi straeon sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwaith y sefydliad gyda defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau lleol a phoblogaethau cyfan. Erbyn hyn, mae cyfarfodydd y Bwrdd yn dechrau â stori defnyddiwr gwasanaeth. Yn y cyfamser, daeth gwaith i ddatblygu adroddiad profiadau defnyddwyr gwasanaeth i ben pan gyflwynwyd yr adroddiad profiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella i'w ystyried. Cafodd crynodeb byr o wybodaeth am brofiadau hefyd ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Bwrdd am y tro cyntaf.

## Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

52 Ymarfer cyfateb data yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy gyfateb data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi honiadau a throsglwyddiadau sydd o bosibl yn droseddol neu'n wallus. Mae'n ddull effeithiol iawn o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygrediaeth.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol yn y Fenter, ac felly cyflwynodd ddata i ymarfer cyfateb data presennol y Fenter ym mis Hydref 2016. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymarfer cyfateb data i gyrff oedd yn cymryd rhan ym mis Ionawr 2017. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 1,819 o gyfatebion data drwy raglen ar-lein y Fenter.

54 Mae cyfatebion data yn amlygu anghysondebau, a all helpu i ganfod twyll a gwallau pan gânt eu hadolygu. Er na fyddem yn disgwyl i sefydliadau adolygu pob cyfatebyn data, caiff rhai o'r cyfatebion eu categoreiddio fel 'cyfatebion argymelledig'. Mae'r rhain yn gyfatebion yr ystyrir eu bod yn risg uchel, ac felly argymhellir eu hadolygu'n gynnar. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 121 o gyfatebion argymelledig.

55 Mae rhaglen ar-lein y Fenter, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad yr Ymddiriedolaeth o gyfatebion data, yn dangos na wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu dim o'r cyfatebion data tan fis Rhagfyr, oddeutu deng mis ar ôl derbyn y data. Mae'n nodedig o bryderus bod yr Ymddiriedolaeth wedi methu â gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter fel rhan o'i threfniadau i atal a chanfod trosedd.

56 Mae disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ddarparu data ar gyfer ymarferiad nesaf y Fenter (2018-19) ym mis Hydref 2018. Rwy'n argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod y cyfatebion data mae'n eu derbyn o'r ymarfer hwnnw'n cael eu hadolygu, a'u harchwilio lle bo angen, mewn modd amserol.

## Mae fy ngwaith yn archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer fach o feysydd allweddol

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol er mwyn llywio ei strategaeth hirdymor, mae'n gwella ei gwaith cynllunio'r gweithlu ac mae ganddi raglen wybodeg uchelgeisiol i gefnogi ei chynllun tymor canolig integredig, ond nid yw rhai trefniadau allweddol wedi'u cytuno na'u cyflwyno eto

57 Roedd fy Asesiad Strwythuredig yn 2017 yn archwilio galluogwyr eraill ar gyfer defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn arbennig adnoddau ar gyfer y gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, technoleg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a'r trefniadau ar y cyd ar gyfer adnoddau iechyd y cyhoedd lleol. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella gwaith cynllunio'r gweithlu ac mae newidiadau i'r dangosfwrdd datblygu pobl a'r sefydliad yn helpu i wella gwaith craffu

58 Mae trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau'r gweithlu ar lefel adrannol a chyfarwyddiaeth yn cael eu cryfhau, wrth i waith ar ddatblygu strategaeth hirdymor iechyd y cyhoedd i'r gweithlu barhau. Mae gwaith yn parhau ar wella cydymffurfiaeth ag arfarniadau ac adolygiadau perfformiad blynyddol ar gyfer staff nad ydynt yn staff meddygol na deintyddol, sy'n 71%. Mae lefel gydymffurfio ag arfarniadau ac ailddilysu meddygol/deintyddol yn 100%. Roedd cydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant statudol a gorfodol yn 82% ar ddiwedd mis Tachwedd 2017, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd yn cyrraedd targed GIG Cymru (85%) erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

59 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud camau breision er mwyn gwella ansawdd a fformat gwybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad, sy'n helpu i wella gwaith craffu a sicrwydd. Mae'r dangosfwrdd gweithlu yn darparu ystod eang o fesuryddion, crynodeb o berfformiad a chamau unioni er mwyn gwella. Mae ein dadansoddiad o fesuryddion y gweithlu yn awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth yn gwario swm cymharol is na chyrff iechyd eraill ar staff asiantaethol, ond mae'r gwariant yn cynyddu. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn perfformio'n well o ran absenoldeb o achos salwch o gymharu â chyrff iechyd eraill, mae'r lefelau'n uwch na tharged y sefydliad. Mae gan yr Ymddiriedolaeth y lefel uchaf ond un o drosiant staff ymhlith cyrff y GIG yng Nghymru, sy'n 11.9%, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ddod i ddeall hyn yn well. Er hyn, mae gwelliannau sylweddol wedi bod yn yr amser a gymerir i recriwtio staff, sydd wedi gostwng o'r 64.7 diwrnod yn 2016-17 i 39 diwrnod ym mis Awst 2017.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen ymgysylltu weithredol er mwyn llywio datblygiad ei strategaeth hirdymor, ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i wella gwaith ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau

60 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth yn allweddol o ran ei helpu i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol. Nododd yr Ymddiriedolaeth y rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol yr oedd yn bwysig ymgysylltu â nhw fel rhan o'r broses o ddatblygu ei strategaeth hirdymor. Datblygwyd rhaglen o weithgareddau ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y cyhoedd. Mae'r wybodaeth a ddaw o'r gweithgareddau niferus hyn yn helpu i siapio trafodaethau'r Bwrdd a'r uwch dîm arwain am y strategaeth hirdymor.

61 Yn 2016, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o'i threfniadau ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Canfu'r adolygiad ddiffyg eglurdeb, cysondeb a chydlyniant mewn perthynas ag arferion ymgysylltu, a oedd yn effeithio ar waith ymgysylltu ag unigolion a chymunedau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella, gan ddechrau drwy ddatblygu dull ymgysylltu trosfwaol, a rannwyd â'r Bwrdd yn ddiweddar.

## Mae rhaglen uchelgeisiol o ddatblygiadau gwybodeg sydd â'r nod o gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun tymor canolig integredig, ond nid yw'r trefniadau strategaeth digidol a rheoli rhaglen wedi'u cymeradwyo a'u cyflwyno eto

62 I gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o GIG sydd wedi'i alluogi'n ddigidol, datblygodd holl gyrff y GIG, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth, raglen amlinellol strategol yn gosod gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer gofynion buddsoddi mewn technoleg a newid gwasanaeth wedi'i alluogi'n ddigidol. Mae gofynion cyfalaf a refeniw dangosol yr Ymddiriedolaeth yn dod i £16.8 miliwn, sy'n golygu y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu'r rhaglen waith arfaethedig a osodwyd yn y rhaglen amlinellol strategol. Yn y cyfamser, mae'r gofrestr risg technoleg gwybodaeth a llywodraethu gwybodaeth yn amlygu'r risgiau o fethu â chyflawni'r rhaglen a gynlluniwyd o ddatblygiadau gwybodeg.

63 Caiff y meysydd cyflawni craidd sydd wedi'u gosod yn y rhaglen amlinellol strategol eu hadlewyrchu yng nghynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth a'i strategaeth ddigidol drafft. Un o'r cynigion a adlewyrchir yn y dogfennau hyn yw sefydlu Bwrdd Trawsnewid Digidol, wedi'i arwain gan wybodegwr clinigol i gytuno a blaenoriaethu datblygiadau a gwasanaethau gwybodeg, i gadw trosolwg o gyflawniad, ynghyd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer asesu'r goblygiadau seiberddiogelwch ar ddatblygiadau gwybodeg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes amserlenni terfynol na chamau gweithredu y cytunwyd arnynt er mwyn gweithredu'r cynnig hwn.

## Nid yw trefniadau ar y cyd ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

64 Canfu fy adolygiad o drefniadau cydweithio Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol â Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd bod cydweithio effeithiol mewn perthynas â gwaith i wella iechyd yn dibynnu ar arweinyddiaeth gydsyniol, nad yw'n amlwg o hyd. Yn system gyffredinol iechyd y cyhoedd, mae ystod eang o bobl a sefydliadau yn cyfrannu tuag at ddiogelu a gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Nid oes un sefydliad sy'n llwyr gyfrifol am gyflawni gwelliannau yn iechyd a lles y boblogaeth, ond caiff llwyddiant ei seilio ar gydweithio effeithiol.

65 Er nad yw'n ddymunol nodi un arweinydd system o reidrwydd, mae angen mwy o eglurder o ran rolau unigol y rhanddeiliaid gwahanol o fewn y system. Canfu fy ngwaith bod diffyg cyfathrebu ystyrlon rhwng yr Ymddiriedolaeth, timau iechyd y cyhoedd lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd am rolau unigol, cyfrifoldebau a fframwaith gytunedig ynghylch pa waith a wneir orau ar y cyd.

66 Ar hyn o bryd, mae diffyg trefniadau effeithiol i sicrhau y ceir gwerth am arian o'r adnoddau a ddynodir i dimau iechyd y cyhoedd lleol. Ni chynhelir cyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd i drafod sut defnyddir adnoddau i wella iechyd a lles, ac a ydynt yn cyflawni'r budd bwriadedig. Canfu fy ngwaith hefyd ddiffyg dulliau cadarn ar gyfer dynodi neu newid adnoddau

timau iechyd y cyhoedd lleol. Yn hytrach, gwneir penderfyniadau ad hoc wrth i swyddi ddod yn wag.

67 Canfu fy ngwaith fod trefniadau ar waith i gefnogi cofrestru staff a ddefnyddir ar draws timau lleol yn broffesiynol, ond mae angen rhagor o eglurder ar sut y defnyddir hyn i ddangos cymhwysedd proffesiynol a dilyniant gyrfa. Mae trefniadau newydd hefyd yn helpu i gryfhau prosesau ardystio a chynllunio datblygiad personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu anghenion datblygu cyffredinol timau iechyd y cyhoedd lleol.

68 Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd y cyhoedd lleol wedi'u datblygu'n digonol. Nid oes un dull safonedig ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn roedd cyfranogwyr gwahanol yn ei wneud ar lefel leol a chenedlaethol. Canfu fy ngwaith hefyd ddiffyg trefniadau ar gyfer cydlynu gwaith a ddatblygwyd neu a gyflawnwyd yn lleol neu'n genedlaethol, ac ar gyfer rhannu'r wybodaeth â'r un partneriaid cyffredin.

69 Rwyf wedi nodi'r ymateb rheoli cyfunol a chydweithredol i fy nghanfyddiadau sydd wedi'i baratoi gan yr Ymddiriedolaeth, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Rwy'n bwriadu cyflawni gwaith pellach yn 2018 i asesu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd uchod.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 1: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2017.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio cyllid** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2017 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2017 |
| Llythyr – Materion yn codi o'r cyfrifon terfynol | Medi 2017 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Trefniadau Cydweithio ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd y Cyhoedd Lleol | Awst 2017 |
| Asesiad Strwythuredig 2017 | Rhagfyr 2017 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2017 | Mawrth 2017 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2017 ffi archwilio arfaethedig o £151,155 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrifiad diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn y cynllun.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun.: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales